# GRYMUSO UNIGOLION YNG NGOGLEDD CYMRU

# PECYN CYMORTH LLWYBR SGILIAU DIGIDOL




Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Croeso

Yn y byd technolegol sydd ohoni, mae sgiliau digidol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant a thwf personol. P'un a ydych eisiau gwella eich gyrfa bresennol neu eisiau archwilio cyfleoedd newydd, mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i helpu unigolion yng Ngogledd Cymru i adeiladu a gwella eu galluoedd digidol. O sgiliau sylfaenol i arbenigedd uwch, mae yma adnoddau i lywio'ch taith yn yr oes ddigidol.

Y tu mewn, fe welwch:

- Wybodaeth am bwysigrwydd sgiliau digidol a sut y gallant wella eich gallu i gael swydd, eich cynhyrchiant a'ch creadigrwydd.
- Esboniadau clir o wahanol lefelau sgiliau digidol, o sylfaenol i uwch a pham y gall buddsoddi yn y sgiliau hyn agor llwybrau gyrfa newydd.
- Cyfleoedd lleol ar gyfer datblygu sgiliau, gan gynnwys prentisiaethau, microgredydau, cyrsiau rhan-amser ac ardystiadau.
- Canllawiau ar sut i ddechrau ar eich taith sgiliau digidol, gan eich helpu i ddiogelu eich gyrfa yn y farchnad swyddi sy'n esblygu.



**Bydd y pecyn cymorth hwn yn eich helpu i ddatgloi potensial sgiliau digidol i symud eich gyrfa i'r lefel nesaf!**




# Pam mae Sgiliau Digidol yn Bwysig i Unigolion?


Yn y farchnad swyddi heddiw, nid yw sgiliau digidol bellach yn ddewisol, maent yn hanfodol. P'un a ydych chi mewn maes technegol neu ddiwydiant mwy traddodiadol, mae sgiliau digidol yn hanfodol ar gyfer:

**Gwell Cyflogadwyedd:**
Mae angen sgiliau digidol yn fwyfwy yn y rhan fwyaf o rolau swyddi, gyda llawer o gyflogwyr yn chwilio am unigolion sy'n gallu defnyddio offer a llwyfannau digidol yn effeithiol.

**Cynnydd mewn Cynhyrchiant:**
Gall sgiliau digidol eich helpu i symleiddio tasgau, gwella effeithlonrwydd gwaith, a gwella eich gallu i gydweithio â thimau, gan gynyddu eich cynhyrchiant cyffredinol.

**Twf Gyrfa ac Arloesi:**
Gyda'r byd digidol yn esblygu'n gyflym, mae'r rhai sydd â sgiliau digidol uwch mewn gwell sefyllfa i addasu, arloesi, a manteisio ar gyfleoedd newydd yn eu gyrfaoedd.





# Deall Sgiliau Digidol

Mae sgiliau digidol yn cyfeirio at y sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio dyfeisiau digidol, offer cyfathrebu ac apiau yn effeithiol. Mae'r sgiliau hyn yn disgyn i dair prif lefel: sylfaenol, canolradd ac uwch.

## SGILIAU DIGIDOL SYLFAENOL:

Mae sgiliau digidol sylfaenol yn ffurfio sail i lythrennedd digidol. Mae'r rhain yn sgiliau fydd yn eich helpu i lywio eich bywyd bob dydd a'ch gwaith yn y byd digidol, gan gynnwys:

- **E-bost:** Cyfansoddi, anfon a rheoli e-byst.
- **Microsoft Office:** Defnyddio meddalwedd fel Word, Excel, a PowerPoint i greu dogfennau, taenlenni a chyflwyniadau.
- **Llywio'r Rhyngrwyd:** Chwilio'r we, pori gwefannau, a defnyddio peiriannau chwilio yn ddiogel.

## SGILIAU DIGIDOL CANOLRADD:

Mae sgiliau digidol canolradd yn angenrheidiol ar gyfer rolau sy'n cynnwys creu a rheoli cynnwys digidol, dadansoddi data, neu gydweithio ar draws timau:

- **Dadansoddi Data:** Defnyddio offer fel Excel neu Power BI i ddadansoddi data a chreu mewnwelediadau.
- **Meddalwedd Rheoli Prosiectau:** Defnyddio offer fel Trello neu Asana i reoli tasgau a phrosiectau yn effeithiol, ynghyd â systemau CRM (Customer Relationship Management) i olrhain rhyngweithiadau a gwella perthnasoedd cwsmeriaid.
- **Offer Dylunio Graffig:** Defnyddio rhaglenni fel Adobe Photoshop neu Canva i greu cynnwys gweledol.





## SGILIAU DIGIDOL UWCH:

Mae sgiliau uwch yn hanfodol ar gyfer rolau lefel uchel mewn meysydd technegol neu swyddi sy'n gofyn am ddatrys problemau cymhleth ac arloesedd:

- **Codio:** Deall ieithoedd rhaglennu fel Python neu JavaScript ar gyfer datblygu meddalwedd.
- **Deallusrwydd Artiffisial (AI):** Deall cysyniadau AI megis dysgu peirianyddol a sut y gellir eu cymhwyso i ddatrysiadau go iawn yn y byd.
- **Seibrddiogelwch:** Amddiffyn systemau digidol rhag bygythiadau seibr, torri diogelwch data, a sicrhau diogelwch gwybodaeth.
- **Cyfrifiadura Cwmwl:** Deall llwyfannau cwmwl i storio a rheoli data o bell, gyda hyblygrwydd a'r gallu i ehangu.

# Pam Buddsoddi mewn Sgiliau Digidol?

Mae buddsoddi yn eich sgiliau digidol yn hanfodol i aros yn gystadleuol ac i allu addasu yn y gweithlu. Mae'r galw am weithwyr medrus mewn meysydd digidol yn parhau i dyfu, ac mae unigolion sy'n datblygu'r cymwyseddau hyn yn fwy tebygol o:

- **Gynyddu eu Cyfleoedd Gwaith:**
  Gyda busnesau yn dibynnu fwyfwy ar dechnolegau digidol, mae cael sgiliau digidol yn fantais fawr wrth sicrhau swydd a hyrwyddo eich gyrfa.
- **Aros ar y Blaen i Dueddiadau'r Diwydiant:**
  Mae arloesi digidol yn siapio diwydiannau ar draws y bwrdd. Wrth ddatblygu sgiliau newydd, gallwch achub y blaen ar dueddiadau newydd, gan wella gobeithion eich gyrfa.
- **Hybu Cynhyrchiant Personol:**
  Mae meistroli offer digidol yn eich helpu i weithio'n fwy effeithlon, gan arbed amser ac ymdrech, a'ch galluogi i ganolbwyntio ar dasgau a chyfrifoldebau mwy cymhleth.

# Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Wrth i dechnoleg barhau i esblygu, mae AI yn trawsnewid diwydiannau ac yn ail-lunio'r farchnad swyddi. Gyda 75% o gwmnïau'n bwriadu integreiddio AI yn y pum mlynedd nesaf, mae'n hanfodol i unigolion ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i aros yn gystadleuol. Er y bydd AI yn creu cyfleoedd swyddi newydd, bydd hefyd yn newid rolau presennol, gan ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ddysgu sgiliau newydd i barhau i fod yn berthnasol.

*"Nid yw sgiliau digidol bellach yn ddewisol - maent yn hanfodol i fusnesau arloesi, tyfu a pharhau i fod yn gystadleuol. Mae'r Pecyn Cymorth Llwybr Sgiliau Digidol hwn yn adnodd hanfodol i gyflogwyr sy'n dymuno datblygu gweithlu sy'n barod ar gyfer heriau'r dyfodol. Yn M-SParc, rydym yn gweld drosom ein hunain sut mae uwchsgilio digidol yn gyrru llwyddiant busnes, ac rydym yn cefnogi'r fenter hon yn llawn i wella galluoedd digidol Gogledd Cymru."*

**Pryderi Ap Rhisiart, M-SParc - Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd Clwstwr Cyflogwyr Sgiliau Digidol RSP**



# Proffil Gweithlu Sector Creadigol a Digidol

**RHYWEDD**: 39% | 61%

**OEDRAN**



| 16 - 24 | 25 - 49 | 50+ |
|---|---|---|
| 8.2% | 56.4% | 35.4% |

## Galw Uchel am Sgiliau Digidol - Crëwch Gyfleoedd Gyrfa Newydd!

Mae'r byd digidol yn esblygu'n gyflym, ac mae galw cynyddol am y sgiliau hyn:

- **Seibrddiogelwch** - Amddiffyn eich hun a sefydliadau rhag bygythiadau digidol.
- **Peirianneg a Dadansoddi Data** - Troi data yn fewnwelediadau pwerus ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell.
- **Peirianneg Cwmwl** - Dysgu sut i ddylunio atebion digidol effeithlon y gellir eu ehangu'n gyflym.
- **Rhaglennu a Chodio** - Datblygu'r sgiliau i arwain y trawsnewid digidol.

Offer a Thechnolegau Mwyaf Gwerthfawr i'w Meistroli:

- **Llwyfannau Cwmwl (AWS, Azure):** Gwella eich effeithlonrwydd a'ch cydweithrediad yn y gweithle digidol.
- **Offer Cronfa Ddata a Gwyddor Data (SQL, Pandas, NumPy):** Dysgu sut i harneisio data ar gyfer **penderfyniadau craffach, sy'n cael eu gyrru gan ddata.**
- **Datblygu a Sgriptio (React, HTML / CSS, CI / CD, Git):** Aros ar y blaen trwy feistroli offer sy'n gyrru arloesedd cyflym.



# Uwchsgilio: Mae'n Haws Na'r Disgwyl!

Prif opsiynau dysgu ar gyfer eich twf digidol:

**Cyrsiau Byr a Mentora** – Hyfforddiant hyblyg a hygyrch sy'n cyd-fynd â'ch amserlen.

**Prentisiaethau a Hyfforddiant a Ariennir** – Ffyrdd fforddiadwy o ennill sgiliau digidol sy'n cael effaith fawr.



**Mae Dyfodol Digidol mwy Amrywiol a Chynhwysol yn Aros Amdanoch!**

- Potensial mawr ar gyfer mwy o amrywiaeth mewn rolau digidol - byddwch yn rhan o'r newid.
- Bydd AI a Thechnolegau sy'n Dod i'r Amlwg yn gyrru llwyddiant yn y dyfodol - Nawr yw'r amser i achub y blaen!

**Gweithredwch ac Adeiladwch eich Gyrfa Ddigidol Heddiw!**

- Chwilotwch am Brentisiaethau Digidol – Ffordd wych o ennill profiad ymarferol wrth ddysgu.
- Sicrhewch fod eich Sgiliau'n Cyd-fynd â Thueddiadau'r Diwydiant – Arhoswch yn berthnasol ac ar y blaen gyda'r sgiliau digidol diweddaraf.
- Hyrwyddo Amrywiaeth – Cofleidiwch amrywiaeth o rolau digidol sy'n darparu ar gyfer gwahanol gefndiroedd a sgiliau.

## Llwybrau at Ddatblygu Sgiliau Digidol

Ni waeth ble rydych chi yn eich gyrfa, mae yna lwybr ar gael i chi wella eich sgiliau digidol ac aros ar y blaen ym marchnad swyddi esblygol heddiw!





| Cwrs | Ysgol | Coleg | Prifysgol | Gweithle |
|---|---|---|---|---|
| Bagloriaeth Cymru | ✓ | | | |
| TGAU | ✓ | | | |
| Prentisiaeth L2 | | ✓ | | ✓ |
| Cymhwyster TG Uwch L2 | | ✓ | | |
| Cymhwyster L2 | | ✓ | | |
| Prentisiaeth L3 | | ✓ | | ✓ |
| Cymhwyster TG Uwch L3 | | ✓ | | |
| Cymhwyster L3 | | ✓ | | |
| Lefel A | ✓ | ✓ | | |
| Prentisiaeth L4 | | ✓ | | ✓ |
| Cymhwyster L4 | | ✓ | | |
| Prentisiaeth Gradd | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gradd Llawn Amser | | | ✓ | |
| Msc | | | ✓ | |
| PhD | | | ✓ | |

# Prentisiaethau

Nid yw prentisiaethau ond ar gyfer y rhai sy'n dechrau swydd newydd, maent hefyd yn gyfle gwerthfawr i uwchsgilio ac ailsgilio os ydych eisoes yn gyflogedig. Gall prentisiaethau digidol eich helpu i aros ar y blaen i ddatblygiadau technolegol, gan roi hwb i'ch gwybodaeth ac agor drysau i gyfleoedd newydd, gan hefyd wella cynhyrchiant ac arloesedd yn eich maes.

## PRENTISIAETHAU (LEFEL 2 - 3)

| Fframwaith | Lefel | Darparwyr yng Ngogledd Cymru |
|---|---|---|
| Sgiliau Digidol ar gyfer Busnes | Lefelau 2, 3 | Grwp Llandrillo Menai (GLIM)<br>Coleg Cambria<br>ALS Training |
| Datblygwr Meddalwedd | Lefelau 3, 4 | GLLM<br>ALS Training |
| Dadansoddwr Data | Lefel 3, 4 | ALS Training |
| Dadansoddwr Seibrddiogelwch | Lefelau 3, 4 | ALS Training |
| Dylunio Cynnwys Digidol | Lefelau 3, 4 | ALS Training |
| Peirianneg Seilwaith Digidol | Lefelau 3, 4 | Coleg Cambria<br>ALS Training |
| Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr (UCD) | Lefelau 2, 3, 4 | ALS Training |
| Telathrebu Proffesiynol | Lefelau 2, 3, 4 | Cysylltwch â darparwyr i drafod yr angen |



## PRENTISIAETH GRADD (LEFEL 6)

| | |
|---|---|
| **Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol** | |
| BSc (Anrh) mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol | Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Cambria |
| BSc (Anrh) Cyfrifiadura | Prifysgol Wrecsam |
| BSc (Anrh) mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol | Y Brifysgol Agored |
| **Gwyddor Data Gymhwysol** | |
| BSc (Anrh) Gwyddor Data Cymhwysol | Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Cambria |
| **Seibrddiogelwch Cymhwysol** | |
| BSc (Anrh) Seibrddiogelwch Cymhwysol | Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Cambria |
| BSc (Anrh) Seibrddiogelwch | Prifysgol Wrecsam |

I ddarganfod mwy am **brentisiaethau** ewch i **Portal Sgiliau Gogledd Cymru**

# Cyrsiau Llawn Amser a Rhan-amser, yn Cynnwys Microgredydau

Mae ystod eang o gyrsiau ar gael i'ch helpu i uwchsgilio ac ailsgilio ar unrhyw gam o'ch gyrfa. Mae'r cyrsiau hyn ar gael ar wahanol lefelau a gellir eu hariannu'n llawn, eu hariannu'n rhannol, neu eu darparu'n fasnachol, gan ei gwneud hi'n haws i chi fuddsoddi yn eich datblygiad personol.

P'un a ydych eisiau gwella eich sgiliau digidol, arbenigedd technegol, neu alluoedd arweinyddiaeth, mae opsiynau dysgu hyblyg ar gael sy'n addas i'ch anghenion. Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau digidol sydd ar gael yng Ngogledd Cymru a all eich helpu wneud cynnydd:



- Seibrddiogelwch (e.e., canfod bygythiadau, hacio moesegol, rheoli risg)
- Dadansoddi Data a Data Mawr (e.e., Excel ar gyfer busnes, SQL, Python ar gyfer gwyddor data)
- Datblygu Meddalwedd (e.e., codio yn Python, JavaScript, datblygu apiau)
- Systemau TG a Rhwydweithio (e.e., cyfrifiadura cwmwl, cymorth TG, diogelwch rhwydwaith)
- Marchnata Digidol (e.e., SEO, rheoli cyfryngau cymdeithasol, creu cynnwys)
- E-fasnach a TG Busnes (e.e., datblygu gwefannau, systemau CRM, strategaethau gwerthu ar-lein)
- Animeiddio ac Amlgyfrwng (e.e., dylunio graffig, golygu fideo, modelu 3D)
- Technolegau Iechyd Digidol (e.e., rheoli data gofal iechyd, AI mewn gofal iechyd)





Am ragor o wybodaeth am **ddatblygu eich sgiliau**
neu
**wneud cynnydd yn eich gyrfa**
ewch i
**Portal Sgiliau Gogledd Cymru**



# Sut i Ddechrau Arni

1. **Nodwch y Bylchau yn eich Sgiliau:** Cymerwch eich amser i asesu lle mae angen i chi wella, boed hynny'n llythrennedd digidol neu feysydd mwy arbenigol fel dadansoddi data neu AI.

2. **Cysylltwch â Darparwyr Hyfforddiant Lleol:** Cysylltwch â cholegau, prifysgolion neu ddarparwyr hyfforddiant annibynnol sy'n cynnig cyrsiau digidol. Mae llawer o'r darparwyr hyn hefyd yn cynnig atebion wedi'u teilwra ar gyfer diwydiannau neu rolau penodol.

3. **Ystyriwch Brentisiaethau neu Ddysgu Rhan-amser:** Chwiliwch am gyfleoedd sy'n eich galluogi i ddysgu wrth i chi weithio, gan eich helpu i ennill profiad ymarferol wrth ddatblygu eich sgiliau digidol.

**Ydych chi wedi ystyried dysgu'n anffurfiol drwy lwyfannau ar-lein?**
Mae adnoddau am ddim fel Google Digital Garage, Microsoft Learn, OpenLearn a chanllawiau ar-lein yn cynnig sesiynau hyblyg ar farchnata digidol, creu cynnwys, offer MS Office, cyfrifiadura cwmwl, ac AI – i gyd ar eich cyflymder eich hun!





# Cyswllt a Chefnogaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau digidol sydd ar gael, cysylltwch â'r darparwyr hyfforddiant hyn yng Ngogledd Cymru:

Coleg Cambria

Grŵp Llandrillo Menai


ALS Training

Prifysgol Bangor

Prifysgol Wrecsam

Y Brifysgol Agored

Darganfyddwch amrywiaeth o ddarparwyr hyfforddiant a chymorth ar Portal Sgiliau Gogledd Cymru




info@rspnorth.wales
www.partneriaethsgiliaugogledd.cymru

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

NORTH WALES SKILLS portal SGILIAU GOGLEDD CYMRU

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Gogledd Cymru
North Wales
Regional Skills Partnership